Polisi Amddiffyn Plant S4C
Diweddarwyd Tachwedd 2017

CYNNWYS

1. Cyflwyniad a Diben
2. Egwyddorion Allweddol
3. Cyfrifoldebau Diogelu a Hysbysu
4. Adnabod Achosion o Gam-drin
5. Ymdrin â Honiadau am Gam-drin
6. Recriwtio a Fetio Staff
7. Canllawiau Trwyddedu a Hebryngwyr
8. Cydsyniadau
9. Asesiadau Risg
10. Ymddygiad Priodol
11. Gweithgarwch Ar-lein a'r Cyfryngau Cymdeithasol
12. Cystadlaethau
13. Cymorth Cyntaf
14. I Blant a Rhieni: Yr hyn sydd angen i chi ei wybod

Atodiad 1: Diffiniadau

Atodiad 2: Person Dynodedig S4C

Atodiad 3: Ymdrin â Honiadau am Gam-drin/Materion sy'n Achosi Pryder

Atodiad 4: Canllawiau GDG i Gwmnïau Cynhyrchu Annibynnol sy'n Cyflenwi i S4C

Atodiad 5: Diogelu Data

Atodiad 6: Ffurflen Hunan Ddatganiad Diogelu Plant a Grwpiau Agored i Niwed

1. Cyflwyniad a Diben

1.1 Mae gweithio gyda Phlant[1] a phobl ifanc yn fraint a chyda'r fraint honno daw cyfrifoldeb i'w cadw'n ddiogel. Mae S4C yn ymrwymedig i sicrhau bod Plant sy'n rhan o waith S4C yn cael eu diogelu a bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn drwy'r amser. Felly i'r holl aelodau o Staff mae diogelwch a lles Plant a phobl ifanc yn ystyriaeth sydd o'r pwys mwyaf.

1.2 Pwrpas y Polisi hwn yw darparu proses a disgwyliadau cyson a chlir o ran sut y bydd S4C yn ceisio diogelu Plant trwy ei harferion hi ei hun, a thrwy ddylanwadu ar sefydliadau eraill a gaiff eu comisiynu ganddi i ddarparu gwasanaethau neu gynhyrchu rhaglenni fel eu bod hwythau'n gwneud yr un modd. Er ei fod wedi'i lunio ar sail cyfraith a chanllawiau perthnasol, nid yw'r Polisi hwn wedi'i fwriadu i ddarparu cyngor cyfreithiol, felly dylai Staff S4C ymgynghori ag Uned Gyfreithiol S4C ar gyfer unrhyw ymholiadau cyfreithiol penodol mewn perthynas â lles Plant. Dylai cynhyrchwyr a chyflenwyr allanol geisio'u cyngor cyfreithiol eu hunain. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach am Amddiffyn Plant yng Nghymru yng Nghanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 y mae copi ohono ar gael yma: http://www.awcpp.org.uk/cy/hafan/protocolau-ar-gyfer-cymru-gyfan/

1.3 Mae'r Polisi hwn yn seiliedig ar y gyfraith a'r canllawiau a ganlyn:-

- Deddf Plant 1989
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- Deddf Plant 2004
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
- Deddf Diogelu Data 1998
- Canllawiau perthnasol gan y Llywodraeth ar ddiogelu Plant
- Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007)

1.4 Mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar Blant a phobl ifanc ac sy'n deillio o gynnwys ac amserlennu rhaglenni, mae disgwyl i Staff, cynhyrchwyr a chyflenwyr rhaglenni ac/neu gynnwys i S4C gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom a'r holl godau a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir gan Ofcom o bryd i'w gilydd yn ogystal ag unrhyw bolisïau a chanllawiau a gyhoeddir gan S4C.

1.5 Mae'r Polisi hwn wedi cael ei ddiwygio gan S4C mewn ymgynghoriad â'r sector sy'n cyflenwi cynnwys i S4C a'r NSPCC.

1.6 Prif Weithredwr S4C sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y Polisi hwn yn cael ei roi ar waith ac mae gan yr holl Staff gyfrifoldeb i'w ddilyn ac i ddiogelu Plant.

[1] Diffinnir y term yn 1.7.3 isod.

1.7 I bwy y mae'r Polisi'n gymwys?

1.7.1 Mae'r Polisi hwn yn gymwys i **holl** Staff S4C ni waeth os yw eu gweithgareddau'n dod â hwy i gysylltiad â phlant neu os ydynt yn gweithio gyda Phlant ai peidio. Dylai Staff y mae eu gweithgareddau'n dod â hwy i gysylltiad â Phlant a phobl ifanc nodi bod y Polisi hwn yn gymwys (ond nad yw'n gyfyngedig) i'r bobl hynny sy'n:

- cynhyrchu rhaglenni, cynnwys neu gymwysiadau rhyngweithiol trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu sy'n cynnwys plant mewn rhyw ffordd arall. I osgoi unrhyw amheuaeth mae'r Polisi hwn yn gymwys pryd bynnag y mae Plant yn rhan o weithgaredd ac nid yn unig i raglenni ym maes Plant neu raglenni lle mae Plant yn ymddangos o flaen y camera;
- trefnu digwyddiadau sy'n cynnwys Plant;
- cyflawni unrhyw weithgareddau eraill sy'n cynnwys Plant (gan gynnwys profiad gwaith ond nid hynny yn unig).

1.7.2 Bydd sefydliadau y mae S4C yn eu hurio i ddarparu gwasanaethau a all ddod â hwy i gysylltiad â Phlant yn aml dan rwymedigaeth gytundebol i gydymffurfio â thelerau'r polisi hwn. Mae'n ofynnol i gynhyrchwyr sy'n cyflenwi rhaglenni teledu plant i S4C, er enghraifft, gydymffurfio â thelerau'r Polisi hwn dan gymal 2.23 o Delerau Cyffredinol S4C. Os yw sefydliad dan rwymedigaeth gytundebol i gydymffurfio, rhaid i'w fesurau Amddiffyn Plant gynnwys telerau'r Polisi hwn fel lleiafswm. Mae'n ddoeth i'r holl sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaethau i S4C sy'n dod â hwy i gysylltiad â Phlant adlewyrchu'r Polisi hwn yn eu mesurau amddiffyn Plant hwy eu hunain (pa un a oes rhwymedigaeth gytundebol yn bodoli ai peidio).

1.7.3 Mae S4C wedi mabwysiadu'r diffiniad o 'Blentyn' fel person hyd at 18 oed. Felly mae'r polisi hwn yn gymwys i ddiogelu'r holl blant a phobl ifanc sy'n cyfateb i'r diffiniad hwn.

1.8 Hyfforddiant

1.8.1 Bydd S4C yn darparu hyfforddiant diogelu perthnasol ar gyfer yr holl Staff y mae eu gwaith yn dod â hwy i gysylltiad â Phlant.

1.8.2 Mae S4C a TAC wedi cytuno i gydweithio i ddarparu cymorth, canllawiau a hyfforddiant perthnasol ar gyfer cwmnïau cynhyrchu annibynnol ar ddiogelu Plant.

1.8.3 Rhaid i sefydliadau eraill y mae S4C yn eu hurio ddarparu eu hyfforddiant staff hwy eu hunain i ddiogelu Plant.

1.9 Gweld y Polisi

1.9.1 Gellir gweld y Polisi hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg yn yr adran gynhyrchu ar wefan S4C.

1.9.2 Bydd yn ofynnol i'r holl Staff lofnodi datganiad i ddweud eu bod wedi darllen a deall y Polisi hwn.

1.10 Adolygu'r Polisi

1.10.1 Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd (neu'n gynharach os yw hynny'n ofynnol yng ngoleuni newidiadau i ddeddfau neu ganllawiau perthnasol neu yn dilyn unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol perthnasol). Dylai adolygiadau ystyried canlyniad unrhyw ymgynghoriad â phartïon â buddiant.

2. Egwyddorion Allweddol

2.1 Caiff egwyddorion allweddol S4C eu tanategu gan Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn:-

- Mae S4C yn cydnabod bod Plant yn grŵp sy'n agored i niwed y dylai eu lles gael ei ddiogelu;
- Mae gan bob Plentyn, ni waeth beth yw ei (h)oedran, anabledd, rhywedd, treftadaeth hiliol, daliadau crefyddol neu gyfeiriadedd rhywiol hawl i gael ei (h)amddiffyn yn yr un modd rhag pob math o niwed a cham-drin;
- Mae gan bob Plentyn yr hawl i gael ei drin/thrin â gofal, parch ac urddas;
- Mae rhai Plant yn arbennig o agored i niwed oherwydd profiadau blaenorol, eu lefel o ddibyniaeth, eu hanghenion cyfathrebu neu faterion eraill;
- Bydd S4C yn hybu ac yn diogelu hawliau a lles Plant;
- Bydd S4C yn amcanu at greu amgylchedd lle mae amddiffyn lles Plant o'r pwys mwyaf;
- Bydd S4C yn gweithredu yn unol â chyfreithiau perthnasol bob amser;
- Bydd S4C yn mabwysiadu gweithdrefnau a chanllawiau sy'n cyd-fynd ag arfer gorau ym maes lles Plant;
- Bydd yr holl gyflenwyr cynnwys i S4C a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar gontract allanol ar gyfer S4C y mae eu gwaith yn dod â hwy i gysylltiad â Phlant, ar y cyfan, dan rwymedigaeth gytundebol i weithredu'r Polisi hwn a'i roi ar waith.

3. Cyfrifoldebau Diogelu a Hysbysu

3.1 Personau Dynodedig

3.1.1 Dylai fod gan bob sefydliad o leiaf un Person Dynodedig â chyfrifoldeb am ymdrin â materion Amddiffyn Plant a, lle y bo'n bosibl, un person i weithredu yn y rôl hon naill ai yn absenoldeb y Person Dynodedig neu pan nad yw ar gael. Dylai pawb yn y sefydliad fod yn gwybod pwy yw'r Person Dynodedig a'i ddirprwy a sut i gysylltu â hwy.

3.1.2 Yn S4C mae'r Person Dynodedig a'i ddirprwy wedi'u nodi yn Atodiad 2.

3.1.3 Yn achos cwmni cynhyrchu annibynnol, awgrymir mai'r cynhyrchydd neu reolwr y cynhyrchiad fyddai'r person mwyaf priodol i weithredu fel y Person Dynodedig.

3.1.4 Dylai'r Person Dynodedig fod wedi cael hyfforddiant Amddiffyn Plant yn unol â'r gofynion a nodir gan S4C o bryd i'w gilydd.

3.1.5 Rôl y Person Dynodedig yw i:-

- Fod yn brif gyswllt ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â Phlant o fewn y sefydliad;
- Sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol;
- Sicrhau bod y Polisi'n cael ei fonitro, ei werthuso a'i ddiweddaru yn ôl y gofyn;
- Sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau, pryderon ehangach neu arfer gorau'n cael eu defnyddio i wella'r polisi a'r weithdrefn diogelu ac arferion ym maes diogelu;
- Sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn ymwybodol o'r Polisi hwn ac yn cydymffurfio ag ef, gan wneud yn siŵr bod fframwaith priodol yn bodoli er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth;
- Fod yn gyfarwydd â'r Gweithdrefnau Hysbysu (gweler Atodiad 3) a gallu eu rhoi ar waith yn brydlon pan fo'n briodol;
- Dderbyn, cofnodi ac asesu gwybodaeth lle ceir materion Amddiffyn Plant neu bryderon ynghylch Plant, ac egluro gwybodaeth lle y bo'n briodol;
- Ymgynghori â'r heddlu ac/neu Dîm Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol ac, fel y bo'n briodol, yn unol â'r Gweithdrefnau Hysbysu, atgyfeirio unrhyw bryderon atynt yn ffurfiol;
- Lunio cofnod eglur a ffeithiol o'r holl gamau gweithredu a gymerwyd yn dilyn unrhyw honiad neu bryder, gan gynnwys manylion atgyfeiriadau at asiantaethau statudol. Gall cofnodion gael eu defnyddio fel tystiolaeth mewn achos llys neu achos arall. Dylid cadw'r cofnod hwn yn ddiogel (am arweiniad pellach gweler Rhan 2.3 o Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, y mae copi ohono ar gael yma: http://www.awcpp.org.uk/cy/hafan/protocolau-ar-gyfer-cymru-gyfan/);
- Lle mae a wnelo'r honiadau â rhywun sydd wedi cael ei hurio gan gynhyrchiad neu ddigwyddiad a gynhyrchir gan y sefydliad (neu sydd â chysylltiad â chynhyrchiad neu ddigwyddiad o'r fath), prif ddyletswydd y Person Dynodedig yw atgyfeirio'r amheuon hynny at yr heddlu ac/neu Dîm Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol a gweithio'n unol â'u cyngor a'u harweiniad. (Noder y gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach am Broses Amddiffyn Plant yn dilyn atgyfeiriad yn Rhan 3 o Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008);
- Ar ôl ceisio cyngor gan yr asiantaethau perthnasol dylai'r Person Dynodedig gysylltu â'r adran bersonél ac/neu'r rheolwyr sy'n gyfrifol am achosion disgyblu

mewn perthynas â'r unigolyn. Dylid gwneud penderfyniad ynghylch y camau gweithredu priodol i'w cymryd er mwyn amddiffyn lles y Plentyn. Gallai camau o'r fath gynnwys gwahardd yr unigolyn rhag cyflawni ei ddyletswyddau tra bo ymchwiliad yn cael ei gynnal (yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r sefydliad) neu ystyried a ddylid cymryd unrhyw fesurau ataliol eraill;

- Trafod y materion hyn gyda'r awdurdodau ymlaen llaw i osgoi peryglu unrhyw ymchwiliad troseddol neu 'roi achlust' i'r camdriniwr honedig;
- Sicrhau bod yr Adroddiad ar Ddigwyddiad Amddiffyn Plant (gweler Atodiad 3) yn cael ei rannu gydag S4C a sefydliadau priodol.

3.1.6 Lle gwneir honiad am gam-drin NID rôl y Person Dynodedig nac unrhyw berson arall yw penderfynu neu ymchwilio pa un a yw unigolyn wedi cael ei gam-drin na herio'r camdriniwr honedig ond gwneud yr atgyfeiriad priodol at yr heddlu ac/neu Dîm Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol.

4. Adnabod Achosion o Gam-drin

4.1 I oleuo'r Polisi hwn mae S4C wedi mabwysiadu'r categorïau a'r diffiniadau o gam-drin Plant a chamdriniaeth o Blant a nodir yn y canllawiau statudol i Gymru ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc ('Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004' Llywodraeth Cymru 2007). Y categorïau yw Cam-drin Corfforol, Cam-drin Rhywiol, Cam-drin Emosiynol ac Esgeulustod (gweler isod).

4.2 Mae'n bwysig nodi nad achosi niwed yw unig ystyr cam-drin neu esgeuluso Plentyn ond ei fod hefyd yn cynnwys methu ag atal niwed. Hefyd, gall cam-drin Plant ymestyn y tu hwnt i gyswllt personol i gam-drin dros y rhyngrwyd, trwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau rhwydweithio megis 'ystafelloedd sgwrsio'. Mae'n bwysig nodi y 'Gall plentyn ddioddef camdriniaeth mewn teulu neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol; gan rywun y mae'n ei adnabod, neu'n fwy anarferol, gan ddieithryn' (Llywodraeth Cymru t.138, 2007).

4.3 <u>Cam-drin Corfforol</u>

4.3.1 'Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, tagu, neu achosi niwed corfforol mewn ffordd arall i blentyn. Hefyd, gellir peri niwed corfforol pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio neu'n creu salwch mewn plentyn o dan ei ofal. Gall cam-drin corfforol arwain yn uniongyrchol at niwed niwrolegol, anafiadau corfforol, anabledd, neu – ar ei waethaf – marwolaeth. Gall plentyn ddioddef niwed yn sgil y cam-drin ynddo'i hun ac wrth i'r cam-drin ddigwydd o fewn cyd-destun teuluol neu sefydliadol ehangach o wrthdaro a thrais.' (Llywodraeth Cymru t. 138, 2007).

4.4 <u>Cam-drin Emosiynol</u>

4.4.1 'Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol dros amser i'r graddau lle achosir effeithiau niweidiol difrifol a chyson i ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall olygu cyfleu i blant eu bod yn ddiwerth neu'n ddigariad, yn annigonol, neu â gwerth

ond i'r graddau eu bod yn bodloni anghenion person arall. Gall gynnwys beichio plentyn â disgwyliadau anaddas i'w oed neu ddatblygiad. Gall gynnwys peri i blant deimlo ofn neu berygl yn aml, neu lygru neu gam-fanteisio ar blant. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol ar waith ym mhob math o gamdriniaeth i blentyn, er y gall fodoli ar ei ben ei hun.' (Llywodraeth Cymru t. 138, 2007)

4.5 Cam-drin Rhywiol

4.5.1 'Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, pa un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau olygu cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu fel arall. Gallant olygu gweithgareddau heb gyffwrdd, fel cynnwys plant i edrych ar, neu gynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd anaddas yn rhywiol.' (Llywodraeth Cymru t. 139. 2007).

4.6 Esgeulustod

4.6.1 'Methiant cyson i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn yw esgeulustod, sy'n debygol o arwain at nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall olygu methiant rhiant neu ofalwr i ddarparu digon o fwyd, cysgod neu ddillad, methiant i ddiogelu plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu fethiant i sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol addas. Gall hefyd olygu esgeulustod, neu ddiffyg ymateb, i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.' (Llywodraeth Cymru t. 139. 2007)

4.7 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o bryderon posibl o ran amddiffyn Plant a allai godi o fewn gweithgareddau S4C a'r gwasanaethau a gomisiynir ganddi:-

- Dod i gysylltiad â Phlentyn y mae staff yn credu ei fod yn cael neu ei fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- Cam-drin gan Staff S4C neu Staff y gwasanaethau a gomisiynir;
- Cam-drin gan y cyhoedd neu eraill sy'n rhan o weithgareddau sy'n cynnwys Plant;
- Cam-drin gan yr hebryngwr, athro/athrawes neu oedolyn arall sydd gyda'r Plentyn;
- Cam-drin gan riant;
- Hunan-niwed;
- Gall Plant a phobl ifanc gam-drin ei gilydd hefyd naill ai'n rhywiol neu drwy'r hyn a elwir yn 'fwlio'. Dylid trin cam-drin o'r fath yr un mor ddifrifol â cham-drin gan oedolyn;
- Gall Plant gael eu cam-drin trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd neu ffonau symudol (TGCh). Mae enghreifftiau o'r math yma o gam-drin yn cynnwys 'seiber-fwlio' 'stelcian seiber'; trin delweddau; gweld delweddau pornograffig, treisgar neu

amhriodol; y Plentyn yn anfon neu rywun yn gofyn i'r Plentyn anfon delweddau anweddus ohono/ohoni'i hun (a elwir yn 'secstio'); cyswllt trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu 'ystafelloedd sgwrsio' â phobl sy'n ceisio cam-drin Plant yn rhywiol (a elwir yn 'feithrin perthynas amhriodol').

4.8 Lle ceir pryderon ynghylch Plentyn, ond ansicrwydd a oes risg o gam-drin neu a oes cam-drin gwirioneddol, dylid ceisio cyngor ac arweiniad gan y Person Dynodedig **bob tro**. Mae hi'n wastad yn well bod yn rhy ofalus na pheidio â gweithredu o gwbl. Os ydych yn ansicr dylech gysylltu **bob tro** â'r Person Dynodedig yn gyntaf neu ei ddirprwy; os nad ydynt ar gael gellir cael cyngor gan Linell Gymorth NSPCC ar 0808 8005000 (y gellir ei ffonio y tu allan i oriau arferol).

5. Ymdrin â Honiadau am Gam-drin

5.1 Lle ceir pryderon ynghylch lles Plentyn, rhaid i Staff gymryd y pryderon hynny o ddifrif bob tro a hysbysu Person Dynodedig eu sefydliad ar unwaith. Ni ddylai unrhyw bryderon, ni waeth pa mor fach ydynt, gael eu hanwybyddu na'u bychanu a **rhaid** ymlynu wrth yr egwyddorion a'r broses a nodir yn Atodiad 3.

5.2 Yn absenoldeb Person Dynodedig neu ei ddirprwy, dylid trosglwyddo gwybodaeth ar unwaith i'r heddlu ac i Dîm Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol.

5.3 Dylai Staff S4C ymgyfarwyddo â Pholisi S4C Ar Gyfer Awdurdodi Staff i Ddatgelu Camymddygiad Neu Weithgareddau Amhriodol (sydd ar gael fel rhan o Lawlyfr S4C). Dylai Staff cwmnïau cynhyrchu annibynnol a chyflenwyr allanol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer S4C gyfeirio at eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer chwythu'r chwiban.

6. Recriwtio a Fetio Staff

6.1 Rhaid cynnal gwiriadau recriwtio gofalus cyn caniatáu i Staff weithio gyda ac/neu gael cyswllt â Phlant.

6.2 <u>Gwiriadau Recriwtio Cyffredinol</u>

6.2.1 Mae Tystysgrifau'r GDG (a adwaenid yn flaenorol fel gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)) yn ategu arferion recriwtio presennol. Mae'n bwysig cofio felly na ddylid ystyried gwybodaeth a ddarperir trwy ddatgeliadau'n rhywbeth sy'n cymryd lle gwiriadau cyn ac ar ôl recriwtio, sy'n gorfod cynnwys:-

- Gwirio cymwysterau proffesiynol;
- Gwirio pwy yw'r person (gan gynnwys prawf ffotograffig i ddangos pwy ydyw, ar ffurf pasbort neu drwydded yrru);
- Sicrhau bod yr unigolyn yn cael cyfweliad ffurfiol;
- Gwneud ymholiadau ynghylch hanes yr unigolyn o ran cyflogaeth flaenorol a phrofiad perthnasol;

- Cael geirdaon;
- Adnabod unrhyw ofynion o ran hyfforddiant, yn enwedig lle mae rôl yn golygu ei bod yn ofynnol gweithio gyda Phlant;
- Sicrhau bod unigolion yn deall yn llawn beth yw eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau;
- Gwneud penodiadau'n amodol ar gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus (e.e. tri mis);
- Sicrhau bod yr unigolyn wedi darllen a deall y Polisi hwn (ac wedi darparu cadarnhad ysgrifenedig o hyn); a
- Monitro a gwerthuso parhaus.

6.3 Datganiadau

6.3.1 Bydd yn ofynnol i'r holl Staff y mae eu gweithgareddau'n golygu eu bod yn cael cyswllt â phlant, phobl ifanc a grwpiau sy'n agored i niwed lofnodi datganiad sydd wedi'i gynnwys ar y Ffurflen Diogelu Plant ac oedolion Agored i Niwed sydd wedi'i hatodi yn Atodiad 6.

6.4 Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) (Gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) gynt)

6.4.1 Gweler y Canllawiau ynghylch y GDG yn Atodiad 4.

6.5 Atgyfeirio rhywun at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

6.5.1 Rhaid i gyflogwyr atgyfeirio rhywun at y GDG os oeddent:-

- Wedi ei ddiswyddo am ei fod wedi niweidio Plentyn neu oedolyn;
- Wedi ei ddiswyddo neu ei atal rhag gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir oherwydd y gallai fod wedi niweidio Plentyn neu oedolyn fel arall;
- Yn bwriadu ei ddiswyddo am unrhyw un o'r rhesymau hyn, ond bod y person wedi ymddiswyddo'n gyntaf.

6.5.2 Mae cyflogwr yn torri'r gyfraith os nad yw'n atgyfeirio rhywun at y GDG am unrhyw un o'r rhesymau uchod.

7. Canllawiau Trwyddedu a Hebryngwyr

7.1 Wrth weithio gyda Phlant ar gynyrchiadau yng Nghymru mae Deddfau Plant a Phobl Ifanc 1933 a 1963 a Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015 yn gymwys ac mae'n rhaid cydymffurfio â hwy bob amser.

7.1.1 Yn ogystal â chael caniatâd eu rhieni, efallai y bydd angen i Blant sy'n cymryd rhan mewn gwaith cynhyrchu teledu gael trwydded berfformio gan yr Awdurdod Lleol yn yr ardal lle maent yn byw er mwyn cadarnhau y gallant gymryd rhan mewn

cynhyrchiad a phennu amodau ar gyfer eu cyfranogiad. Os bydd rôl plentyn mewn rhaglen neu ddigwyddiad yn cynnwys 'cymryd rhan mewn perfformiad' mae'n debygol y bydd angen trwydded oni fydd eithriad yn gymwys. Ni ddiffinnir 'perfformiad' o dan y ddeddfwriaeth a mater i'r Awdurdod Lleol lle mae'r plentyn yn byw yw penderfynu a oes angen trwydded i gymryd rhan yn y perfformiad neu'r gweithgareddau ac, os felly, pa amodau a ddylai fod ynghlwm wrth y drwydded honno.

7.1.2 Mae'r darpariaethau trwyddedu hefyd yn gymwys i blant sy'n byw yn y DU ond yr eir â hwy y tu allan i'r DU i ffilmio.

7.1.3 Pryd y bydd angen cael Trwydded Berfformio Plentyn?

- Ar gyfer pob plentyn o'i enedigaeth hyd at ddiwedd ei addysg orfodol. Yng Nghymru diffinnir hyn fel y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn academaidd y mae'n cael ei ben-blwydd yn 16 oed ar yr amod y bydd yn 16 oed erbyn diwedd gwyliau haf y flwyddyn ysgol honno. Golyga hyn y bydd angen trwydded ar rai pobl ifanc 16 oed.

- Pan gaiff y perfformiad ei recordio i'w ddarlledu neu ei arddangos (e.e. teledu, ffilm neu ryngrwyd).

- Pan godir tâl mewn cysylltiad â'r perfformiad. Mae hyn yn gymwys p'un a gaiff y perfformwyr eu talu ai peidio.

- Pan fydd y perfformiad yn cael ei gynnal ar safle trwyddedig neu mewn clwb cofrestredig.

7.1.4 Mae adran 37(3) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 yn darparu ar gyfer eithriadau penodol. Dim ond mewn achosion lle na wneir unrhyw daliad mewn perthynas â chyfranogiad y plentyn yn y perfformiad i'r plentyn nac unrhyw un arall, ac eithrio treuliau, y mae'r eithriadau hyn yn gymwys.

Eithriadau

- **Y Rheol 4 Diwrnod**

Os bydd plentyn yn perfformio am lai na phedwar diwrnod o fewn chwe mis. Unwaith y bydd plentyn wedi perfformio ar bedwar diwrnod mewn cyfnod o chwe mis (p'un a oedd gan y plentyn drwydded ddilys ar unrhyw un o'r diwrnodau hynny neu a oedd yn cymryd rhan mewn perfformiad a drefnwyd o dan gymeradwyaeth corff o bersonau ai peidio) bydd angen trwydded ar gyfer unrhyw berfformiadau pellach, oni fydd eithriad arall yn gymwys.

Bydd angen cadarnhau a yw pob un o'r canlynol wedi'u hystyried wrth gyfrifo'r diwrnodau perfformio:-

- Dramâu a pherfformiadau yn yr ysgol lle y codwyd tâl mynediad ar bobl;

- Unrhyw berfformiadau lle y rhoddwyd Cymeradwyaeth Corff o Bersonau i rai o'r plant neu bob un ohonynt, gan gynnwys y plentyn penodol;

- Unrhyw gyfranogiad mewn perfformiadau gan grwpiau proffesiynol, amatur neu gymunedol mewn rôl benodol neu fel rhan o'r cast neu'r corws; yn ogystal ag
- Unrhyw berfformiadau y talwyd y plentyn amdanynt neu yr oedd gan y plentyn drwydded i gymryd rhan ynddynt.

Os bydd plentyn yn absennol o'r ysgol ni ellir dibynnu ar yr eithriad hwn a bydd angen trwydded. Hefyd, ni ellir defnyddio'r eithriad hwn ar gyfer plant sy'n ymgymryd â gweithgareddau chwaraeon neu weithgareddau modelu.

- **Cymeradwyaeth Corff o Bersonau (BOPA)**

Weithiau gall trefnydd perfformiad wneud cais am BOPA. Mae BOPA yn cwmpasu pob plentyn o dan un gymeradwyaeth, gan ddileu'r angen i gael trwyddedau unigol ar gyfer pob plentyn. Ni ddylai'r plant gael eu talu. Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu a ddylid rhoi BOPA. Bydd angen rhoi sicrwydd i'r awdurdod lleol bod gan y corff bolisïau clir, cadarn a sefydledig ar gyfer diogelu plant.

Dylid cyflwyno ceisiadau am BOPA i'r awdurdod lleol lle mae'r perfformiad yn cael ei gynnal. Gall yr awdurdod lleol roi'r gymeradwyaeth hyd yn oed os nad yw'r plant sy'n cymryd rhan ynddo yn byw o fewn ei ffiniau. Os caiff ei rhoi, mae BOPA yn dileu'r angen i wneud cais am drwydded unigol ar gyfer pob plentyn, caiff ei rhoi i'r sefydliad sy'n gyfrifol am y perfformiad. Gall yr awdurdod osod amodau y mae'n ystyried bod eu hangen i sicrhau lles y plant sy'n cymryd rhan yn y perfformiad a gall ddiddymu cymeradwyaethau os na chaiff yr amodau hyn eu bodloni.

Os bydd plentyn yn absennol o'r ysgol ni ellir dibynnu ar yr eithriad hwn. Bydd angen trwydded.

- **Perfformiadau a drefnir gan Ysgol**

Nid yw hyn yn cynnwys ysgolion dawns na drama, y mae'n rhaid iddynt wneud cais am drwyddedau, lle y bo angen.

7.1.5 Ceisiadau am drwyddedau a rheoliadau trwyddedu

Mae'n ofyniad cyfreithiol ceisio trwydded pan fo angen un a gellir erlyn unrhyw berson sy'n achosi neu'n peri i unrhyw blentyn wneud unrhyw beth sy'n groes i'r ddeddfwriaeth drwyddedu p'un a yw plentyn yn perfformio o dan drwydded ai peidio, mae'r un ddyletswydd gofal yn gymwys.

Mae gan bob Awdurdod Lleol ei Ffurflen Gais am Drwydded, ei Ffurflen Gais i Eithrio a'i Ffurflen Cymeradwyaeth Corff o Bersonau ei hun

Mae'n rhaid cydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â gofynion addysgol, teithio, oriau gwaith ac egwylion. Mae'n hanfodol cadw cofnodion da.

7.1.6 Rheoliadau a Dogfennau Cyfarwyddyd

Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015

http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s44804/CLA588%20-%20Rheoliadau%20Plant%20Perfformiadau%20a%20Gweithgareddau%20Cymru%202015.pdf

Cadw Perfformwyr Ifanc yn Ddiogel – Canllawiau i gyd-fynd â rheoliadau 2015 ar gyfer perfformiadau plant.

http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/151029-keeping-young-performers-safe-cy-v2.pdf

Cadw Pobl Ifanc yn Ddiogel - Crynodeb i Bobl Ifanc

http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/151102-child-performance-easy-read-cy.pdf

Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel: arferion gorau

http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170407-keeping-young-performers-safe-best-practice-cy.pdf

Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel: arferion gorau – crynodeb i blant a phobl ifanc

http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170413-keeping-young-performers-safe-best-practice-child-and-young-persons-summary-cy-v2.pdf

Gwybodaeth ddefnyddiol arall:-

Y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer cyflogaeth ac Adloniant plant http://www.nncee.org.uk/

7.2 Mae hebryngwr yn gyfrifol am ofalu am Blentyn ar y set a sicrhau ei les. Yr hebryngwr sydd â'r prif gyfrifoldeb am ofalu am y Plant sydd o dan ei ofal. Dylai hebryngwr roi arweiniad, cyngor a chymorth i'r Plentyn. Dylai sefyll dros y Plentyn, gan weithredu er budd pennaf y Plentyn drwy'r amser. Dylai fod yn gyfforddus i ddweud 'na' wrth y cyfarwyddwr ac eraill yn y tîm cynhyrchu pan fo'n briodol.

7.3 Rhaid hurio hebryngwyr i oruchwylio Plant yn ystod y broses gynhyrchu. Caiff hebryngwyr eu trwyddedu gan yr Awdurdod Lleol ac maent yn cael eu gwirio gan y GDG fel rhan o'u proses ymgeisio. Mae'n ofynnol i hebryngwyr adnewyddu eu trwyddedau'n flynyddol neu bob dwy flynedd, gan ddibynnu ar yr Awdurdod Lleol. Felly, mae'n bwysig gwirio pwy yw unrhyw hebryngwyr sy'n bresennol yn ystod y cynhyrchiad a chynnal gwiriadau recriwtio cyffredinol ar gyfer hebryngwyr.

7.4 Mae S4C yn ei gwneud yn ofynnol i hebryngwr trwyddedig, Rhiant neu warcheidwad cyfreithiol neu oedolyn arall sy'n gweithredu mewn rôl ofalu neu oruchwylio (gyda chydsyniad y Rhiant e.e. athro/athrawes) fod yn bresennol hyd yn oed dan amgylchiadau lle nad oes angen trwydded berfformio ar Blentyn.

7.5 Dylai cwmni cynhyrchu gynnal asesiad risg i ganfod y gymhareb briodol rhwng hebryngwyr a Phlant. Yr uchafswm o ran nifer y plant y gall un hebryngwr fod yn gyfrifol amdanynt yw 12. Fodd bynnag, gall cymhareb is o lawer fod yn briodol yn ddibynnol ar yr amgylchiadau. Yn wir gall yr Awdurdod Lleol ofyn am gymhareb is. Ymysg y ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth y mae oedran neu rywedd y Plant dan sylw, y math o gynhyrchiad, gofynion addysgol ac os yw'r plant yn aros oddi cartref dros nos.

7.6 Rhaid ymlynu wrth gyfarwyddiadau a roddir gan yr hebryngwr yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:-

- Trefnu cludiant i ac o'r set;
- Prydau bwyd y Plentyn;
- Unrhyw lety y mae'r Plentyn yn aros ynddo;
- Unrhyw amodau eraill sy'n angenrheidiol yn nhyb yr hebryngwr ac/neu'r Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau lles y Plentyn.

8. Cydsyniadau

8.1 Dylid ceisio cydsyniad y Plentyn a Rhiant (neu sefydliad â chyfrifoldeb rhiant) cyn cynnwys Plant mewn rhaglenni a dylai eu cydsyniad fod yn gydsyniad gwybodus priodol. Dylid egluro'n iawn beth yw natur y rhaglen, i ba raddau y bydd y Plentyn yn cyfranogi ynghyd â'r ffactorau risg.

8.2 Nid yw'n hanfodol i sicrhau caniatâd dau riant, ond mewn achos lle bydd un rhiant yn rhoi caniatâd a'r rhiant arall yn erbyn y plentyn yn cymryd rhan, dylid cyfeirio'r mater hwn at S4C a dylid ystyried unrhyw niwed posib i les y plentyn

8.3 Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch pwy sydd â'r gallu angenrheidiol i roi cydsyniad yna dylid ceisio cyngor cyfreithiol. Os yw'r Plentyn dan sylw'n ddarostyngedig i orchymyn gofal yna'r awdurdod lleol fydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

8.4 Gall pobl sy'n 16 ac 17 oed ac sydd â'r gallu i roi cydsyniad gwybodus lofnodi eu ffurflenni gydsynio eu hunain lle nad yw'r pwnc dan sylw a'u cyfraniad i'r rhaglen yn ddadleuol.

8.5 Dylai cydsyniad fod yn rhywbeth a roddir yn barhaus. Os yw natur y rhaglen yn newid yna rhaid cael cydsyniad newydd.

8.6 Os nad yw Plant yn gyfranogwyr gweithredol mewn rhaglenni (h.y. ymddangosiad mewn golygfa gyffredinol o'r cyhoedd) yna dylid ceisio cydsyniad fel arfer, ond nid o reidrwydd bob amser. Dylid rhoi ystyriaeth i amddiffyn hunaniaeth Plant mewn golygfeydd cyffredinol os yw'r amgylchiadau'n golygu bod hynny'n ofynnol.

8.7 Os yw cyfranogiad yn mynd i fod yn digwydd yn ystod oriau ysgol yna mae'n ofynnol cael cydsyniad yr ysgol.

8.8 Ac eithrio dan amgylchiadau cyfyngedig, rhaid cael trwydded gan yr awdurdod lleol cyn y gall Plant gymryd rhan mewn rhai mathau o berfformiad. Mae caniatáu i Blentyn berfformio heb drwydded yn drosedd. Rhaid cael trwydded yn unol ag amodau'r AALl perthnasol.

8.9 Caniateir cael cydsyniad i gyfranogi ar gamera i ategu llofnod ar ffurflen gydsynio. Fodd bynnag, ni ddylai cydsyniad ar gamera gymryd lle'r ffurflen gydsynio ysgrifenedig.

8.10 Wrth gael cydsyniad mae'n bwysig ymlynu wrth Reol 1.28 yn Nodiadau Cyfarwyddyd Cod Darlledu Ofcom: Amddiffyn y rhai dan 18. Yn arbennig mae'r nodiadau cyfarwyddyd yn amodi bod yn rhaid cymryd gofal dyladwy dros les corfforol ac emosiynol ac urddas pobl dan ddeunaw sy'n cymryd rhan neu sy'n cael eu cynnwys fel arall mewn rhaglenni. Dylid gwneud hyn ni waeth pa gydsyniad a roddwyd.

9. Asesiadau Risg

9.1 Cyfrifoldeb y Person Dynodedig yw sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gwblhau pryd bynnag y mae Plentyn yn rhan o gynhyrchiad.

9.2 Lle mae Plentyn a Rhiant wedi cydsynio i gyfranogi mewn rhaglen ni ddylid ystyried bod hyn yn rhywbeth sy'n cymryd lle cwblhau asesiad risg na chael cyngor arbenigol annibynnol lle y bo'n briodol.

9.3 Dylid cynnal gwiriadau cefndir priodol o amgylchiadau cymdeithasol, teuluol, addysgol ac iechyd Plentyn fel arfer pan fo Plentyn yn cyfranogi mewn cynhyrchiad. Dylai'r asesiad risg gynnwys asesiad o'r risg i iechyd neu les corfforol, seicolegol neu feddyliol sy'n deillio o ymddangosiad y Plentyn mewn rhaglenni. Dylai asesiadau risg gael eu cwblhau'n barhaus a lle y bo'n briodol dylent ddarparu ar gyfer mesurau parhaus i leihau'r risg o niwed e.e. cadw mewn cysylltiad, monitro ôl-effeithiau darlledu, gwahodd Plant i weld cynnwys cyn ei ddarlledu a chynorthwyo i reoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Plentyn.

9.4 Gall fod yn ofynnol cael cyngor arbenigol gan arbenigwyr â chymwysterau priodol ynghylch effaith cyfranogiad a dylid ei geisio bob amser mewn amgylchiadau eithafol neu anarferol. Mewn rhaglenni sy'n cynnwys materion anodd e.e. cam-drin, troseddolrwydd, materion iechyd neu broblemau teuluol, dylid ystyried cyngor ar gyfranogiad gan arbenigwr priodol bob tro.

9.5 Lle mae Plant yn rhy ifanc i roi cydsyniad (e.e. plant bach a babanod) neu lle nad yw Plentyn yn gallu rhoi cydsyniad oherwydd anabledd neu sgiliau cyfathrebu cyfyngedig dylai'r Person Dynodedig ystyried a yw'n briodol cael cyngor gan arbenigwr priodol yn ogystal â chydsyniad rhiant.

10. Ymddygiad Priodol

10.1 Rhaid i Staff ymddwyn yn briodol drwy'r amser pan ydynt yng ngŵydd Plant, ar ac oddi ar y set. Mae hyn yn golygu ymddwyn mewn ffyrdd sydd er budd pennaf y Plant a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu drwy'r amser.

10.2 Ymddygiad Ar y Set

- Dylai Staff ddefnyddio synnwyr cyffredin ym mhob sefyllfa ond dylent gofio mai lles y Plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf bob tro.

- Dylid dweud wrth Blant nad oes rhaid iddynt oddef unrhyw ymddygiad gan Staff na Phlant sy'n gwneud iddynt deimlo dan fygythiad neu'n anghysurus.

- Rhaid i Staff beidio â rhegi na defnyddio iaith sy'n amhriodol neu'n rhywiol-awgrymog gyda nac o flaen Plant. Yn yr un modd, ni ddylid rhoi rhwydd hynt i Blant ddefnyddio iaith neu ymddygiad amhriodol.

- Ni fydd bwlio (boed yn gorfforol neu'n eiriol, galw enwau, neu bryfocio) nac ymddygiad bygythiol yn y gweithle, ar y set, trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu fel arall yn cael eu goddef ar unrhyw ffurf. Dylai Staff S4C ddilyn y Polisi Parch yn y Gwaith drwy'r amser. Dylai Staff eraill, pob cwmni cynhyrchu annibynnol a chyflenwr allanol i S4C gyfeirio at eu gweithdrefnau hwy eu hunain ar gyfer Parch yn y Gwaith.

- Ni ddylai unrhyw unigolyn fod mewn sefyllfa i arfer dylanwad gormodol neu amhriodol ar Blentyn neu gymryd mantais o'i ymddiriedaeth. Rhaid i gyfarfodydd gyda Phlant unigol ddigwydd mewn modd sydd mor agored â phosibl ac (os yn berthnasol) dylai'r hebryngwr neu Riant (neu oedolyn gyda chydsyniad Rhiant) fod yn rhan o'r cyfarfod bob amser. Os nad yw hyn yn bosibl yna dylai cydweithiwr fod yn bresennol a dylid cofnodi'r rhesymau pam nad oedd hebryngwr na Rhiant yn gallu bod yn bresennol. Dylid trosglwyddo'r cofnod wedyn i'r Person Dynodedig.

- Rhaid i Staff weithredu â phroffesiynoldeb drwy'r amser a pheidio â chael unrhyw gyswllt corfforol amhriodol â Phlant nac ymddwyn mewn modd amhriodol yn gorfforol gyda Phlant (e.e. gemau corfforol gwyllt, cyffwrdd diangen o unrhyw fath). Dylid osgoi cyswllt corfforol â Phlant.

- Fe all fod sefyllfaoedd lle mae cyswllt corfforol yn anorfod neu'n angenrheidiol, megis cynorthwyo Plentyn ag anghenion arbennig, am resymau iechyd a diogelwch, rhoi cymorth cyntaf neu gysuro Plentyn sydd mewn trallod neu wedi cael anaf. Rhaid i gyswllt corfforol o'r fath ddigwydd gyda chydsyniad y Plentyn, dan oruchwyliaeth, yn agored a dylai diben y cyswllt fod yn gwbl eglur a chael ei gofnodi. Dylai'r cofnod gael ei drosglwyddo wedyn i'r Person Dynodedig.

- Dylai Staff gydnabod bod y rhai sy'n gweithio i neu ar ran S4C yn bobl sydd, yn llygaid Plant, mewn swyddi o awdurdod fel cynrychiolwyr dibynadwy S4C. Felly byddir yn ystyried bod perthnasoedd rhywiol gyda Phlentyn sydd dros yr oedran cydsynio cyfreithiol ond o dan 18 yn achos difrifol o dorri ymddiriedaeth ac yn groes i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 a byddant yn cael eu hadrodd felly i'r awdurdodau.

- Dylid osgoi sefyllfaoedd lle mae Plentyn unigol ac oedolyn ar eu pen eu hunain yn llwyr. Lle cyfyd sefyllfa o'r fath a'i bod yn 'rhesymol' anorfod rhaid i'r hebryngwr neu berson priodol wneud cofnod a'i drosglwyddo i'r Person Dynodedig.

10.3 Gweithgarwch Oddi Ar y Set

10.3.1 Arosiadau dros nos

10.3.1.1 Pan fo'n ofynnol i unrhyw Blant aros dros nos, rhaid iddynt fod yng nghwmni un o Hebryngwyr yr AALl, Rhiant neu oedolyn cyfrifol gyda chydsyniad y Rhiant.

10.3.2 Cludo

10.3.2.1 Ni ddylid mynd â phlant ar eu pen eu hunain ar deithiau, ni waeth pa mor fyr ydynt. Dylid gwneud trefniadau ar gyfer cludiant mor bell ymlaen llaw â phosibl a dylai Rhiant, hebryngwr neu athro/athrawes neu oedolyn arall sy'n gweithredu mewn rôl ofalu neu oruchwylio gyda chydsyniad y Rhiant fynd yn gwmni i'r Plentyn. Os cyfyd sefyllfa eithriadol lle na all person o'r fath fynd yn gwmni i Blentyn dros 16 (nad yw trwydded gan yr AALl yn ofynnol ar ei gyfer), rhaid i aelod o Staff â datgeliad priodol gan y GDG fynd yn gwmni i'r Plentyn neu rhaid i'r Plentyn deithio mewn tacsi gyda gyrrwr sydd â datgeliad priodol gan y GDG, a rhaid bod cydsyniad penodol wedi cael ei roi ymlaen llaw gan y Rhiant.

10.3.3 Ni ddylai Staff drefnu cwrdd â, na chael cyswllt diangen â Phlant y tu allan i'r cynhyrchiad neu'r gweithgaredd a drefnwyd heb reswm da, dylai cyswllt o'r fath gael ei gofnodi a dylid trosglwyddo'r cofnod i'r Person Dynodedig.

11. Gweithgarwch Ar-Lein a'r Cyfryngau Cymdeithasol

11.1 Gwaherddir Staff rhag cyrchu, lawrlwytho ac/neu ddosbarthu (boed i Staff neu i gysylltiadau e-bost allanol) deunyddiau y gellid ystyried eu bod yn amhriodol e.e. deunydd pornograffig, treisgar, anllad, anweddus neu ddeunydd lle mae Plant yn cael eu cam-drin.

11.2 Lle mae rhywun yn tybio ei fod wedi derbyn atodiad amhriodol, ni ddylid ei agor na'i anfon ymlaen ond dylid ei wneud yn hysbys i'r Person Dynodedig.

11.3 Dylid cynnwys diogelwch ar-lein fel rhan o'r asesiad risg. Gall cyfranwyr sy'n Blant fod yn ddioddefwyr aflonyddu neu fwlio ar-lein o ganlyniad i gyfranogi a dylid asesu a lliniaru'r risg hwn lle y bo'n bosibl. Dan rai amgylchiadau, gyda chydsyniad y Plentyn a'r Rhiant, gall fod yn briodol i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol cyfrannwr sy'n Blentyn gael eu hatal dros dro.

11.4 Mae cyfyngiadau oedran yn gysylltiedig â'r mwyafrif o rwydweithiau cymdeithasol, ac mae'r rhan fwyaf yn ei gwneud yn ofynnol i Blentyn fod dros 13 oed i gynnal cyfrif. Felly ni ddylid defnyddio gwefannau o'r fath i dargedu'r rhai sydd dan 13 neu'r oedran cofrestru priodol.

11.5 Ni ddylai Staff gysylltu â chyfranogwyr mewn rhaglenni Plant yn uniongyrchol dros e-bost ynglŷn â materion nad ydynt yn gysylltiedig â'r rhaglenni na dod yn 'ffrind' iddynt neu eu 'dilyn' ar wefannau'r cyfryngau cymdeithasol. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai gohebiaeth e-bost fod gyda'r rhiant.

11.6 Os yw Staff yn cael cyswllt uniongyrchol gan Blant ac eithrio trwy gyfathrebu ffurfiol cytunedig sy'n gysylltiedig â gwaith (e.e. cyswllt trwy'r rhwydweithiau cymdeithasol) neu os anfonir negeseuon neu ddelweddau amhriodol at Staff, ni ddylent ymateb a dylent geisio cyngor ac arweiniad ar unwaith gan y Person Dynodedig.

11.7 Lle tybir bod un o aelodau o Staff, actorion neu gymeriadau brand S4C yn cael ei ddynwared ar-lein, a allai godi pryder amddiffyn Plant, dylid hysbysu'r Person Dynodedig am hyn ar unwaith.

11.8 Lle bwriedir defnyddio unrhyw fath o gyfryngu ar-lein neu gyhoeddi lluniau neu ddeunydd ffilm mewn mannau ar-lein sydd wedi'u targedu tuag at Blant yna dylid gwneud atgyfeiriad at y Comisiynydd priodol yn S4C.

11.9 Dylid hysbysu'r Person Dynodedig am unrhyw bryder ynghylch materion Amddiffyn Plant sy'n gysylltiedig â gweithgarwch ar-lein neu yn y cyfryngau cymdeithasol.

12. Cystadlaethau

12.1 Wrth redeg cystadleuaeth i Blant (neu gystadleuaeth sy'n agored i Blant) rhaid i'r wobr fod yn briodol.

12.2 Rhaid i Blant dan 13 oed fod â chydsyniad gwiriadwy[2] gan Riant i gael gwobr mewn cystadleuaeth ac i'w henw gael ei grybwyll fel enillydd gwobr mewn rhaglen, ar wefan neu yn rhywle arall. Nid oes angen gwirio bod cydsyniad i ymgeisio mewn cystadleuaeth wedi cael ei geisio.

13. Cymorth Cyntaf

13.1 Dylai ystyriaeth i ddarpariaeth cymorth cyntaf wastad fod yn rhan o'r asesiad risg pan fo plentyn yn rhan o gynhyrchiad. Rhaid penodi swyddog cymorth cyntaf enwebedig bob amser.

13.2 Os canfyddir materion penodol yn ystod yr asesiad risg e.e. bod cyflwr meddygol hysbys ar blentyn sydd ar y set, dylid trefnu darpariaeth feddygol briodol i ymdrin â materion a allai godi o ganlyniad i'r cyflwr meddygol hwnnw. Gall y ddarpariaeth hon gynnwys cyflogi gweithiwr gofal iechyd proffesiynol megis parafeddyg cofrestredig neu nyrs gofrestredig neu sicrhau bod y swyddog cymorth cyntaf enwebedig wedi cael hyfforddiant digonol i ymdrin â chyflwr y Plentyn.

[2] Bydd ystyr 'cydsyniad gwiriadwy' yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd ffurflen gydsynio ysgrifenedig wedi'i llofnodi, neges e-bost o gyfeiriad e-bost sy'n wahanol i gyfeiriad y Plentyn neu sgwrs ffôn gyda'r rhiant neu oedolyn cyfrifol yn ddigonol.

13.3 Lle mae parafeddygon a nyrsys yn cael eu hurio, dylid gwirio cymwysterau a dylai'r darparwr gofal iechyd gyflenwi tystysgrif gyfredol gan y GDG pan gaiff ei gyflogi i weithio gyda Phlant.

13.4 Dim ond gan ddarparwr hyfforddiant cymwys y dylai swyddogion cymorth cyntaf enwebedig gael hyfforddiant a dylent gynnal eu cymhwysedd trwy fynychu cyrsiau diweddaru'n rheolaidd fel a nodir gan y darparwr hyfforddiant enwebedig.

13.5 Pryd bynnag y bo'n bosibl dylai ail oedolyn fod yn bresennol tra bo Plentyn yn cael triniaeth cymorth cyntaf.

14. I Blant a Rhieni: Yr hyn sydd angen i chi ei wybod

14.1 Taflen Wybodaeth i Blant a Rhieni

14.1.1 Mae'n bwysig bod Plant a'u Rhieni'n cael gwybodaeth briodol am gyfranogiad mewn cynhyrchiad ac at bwy y gallant gyfeirio unrhyw bryderon. Dylid darparu taflen wybodaeth cyn derbyn unrhyw gydsyniad i ffilmio.

14.1.2 Gyda'r nod o weithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd ac o sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu'n briodol i Blant a'u Rhieni am natur a chanlyniadau tebygol cyfranogiad mewn unrhyw raglen (fel bod cydsyniad Plant a'u Rhieni'n gydsyniad gwybodus priodol), dylid rhoi taflen wybodaeth i Blant a Rhieni a honno'n nodi:-

- Disgwyliadau o ran eu hymddygiad a sut y dylent gael eu trin;
- Enw Person Dynodedig y gallant fynd ato/ati'n gyfrinachol ac y dylent gyfeirio unrhyw bryderon ato/ati ynghylch materion amddiffyn Plant;
- Manylion unrhyw ofynion trwyddedu, trefniadau goruchwylio a'r amserlen ffilmio;
- Y broses ar gyfer recordio, golygu a darlledu cynnwys a pherthynas cyfranogiad y Plentyn â'r broses hon;
- Unrhyw ganlyniadau cadarnhaol neu negyddol sy'n debygol o ddeillio o gyfranogi;
- Rhif llinell gymorth yr NSPCC a Childline, Tîm Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol a'r orsaf heddlu leol; ac
- Enw rhywun y gellir cyfleu cwyn iddo/iddi ac/neu y dylai unrhyw bryderon ynghylch y Person Dynodedig gael eu cyfeirio ato/ati.

14.1.3 Dylai'r wybodaeth gael ei geirio, hyd y gellir gwneud hynny, mewn termau sy'n addas i Blant ac sy'n briodol i oedran, dealltwriaeth, aeddfedrwydd, iaith gyntaf ac amgylchiadau'r Plentyn.

ATODIAD 1

DIFFINIADAU

At ddibenion y Polisi hwn, mae'r termau canlynol yn gymwys:-

"Plentyn/Plant": plant a phobl ifanc dan 18 oed;

"GDG": Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (Disclosure and Barring Service);

"Person Dynodedig": y person dynodedig a ddylai gael ei enwebu gan bob sefydliad sy'n cyflenwi gwasanaethau i S4C y mae ei gyfrifoldebau o ran amddiffyn Plant wedi'u nodi yn y Polisi hwn;

"DDD 1998": Deddf Diogelu Data 1998;

"Nodiadau Cyfarwyddyd Ofcom ynghylch rhai dan 18": Nodiadau Cyfarwyddyd Ofcom: Amddiffyn y Rhai dan 18 (Rhifyn Pump: 16 Rhagfyr 2009) ac/neu unrhyw nodiadau cyfarwyddyd diwygiedig neu nodiadau cyfarwyddyd yn eu lle a gyhoeddwyd gan Ofcom mewn perthynas ag amddiffyn Plant o bryd i'w gilydd;

"Rhiant": unigolyn â chyfrifoldeb rhiant neu warcheidwad cyfreithiol;

"Staff": yr holl gyflogeion, staff llawrydd, asiantau, ymgynghorwyr, gwirfoddolwyr ac eraill sy'n gweithio ar ran neu'n darparu gwasanaethau ar gyfer S4C;

"TAC": Teledwyr Annibynnol Cymru Cyf (rhif y cwmni 02573379), y gymdeithas fasnach a ffurfiwyd i gynrychioli buddiannau cynhyrchwyr annibynnol sy'n cynhyrchu ar gyfer darlledwyr yng Nghymru yn bennaf.

ATODIAD 2

PERSON DYNODEDIG S4C

Y Person Dynodedig ar gyfer S4C yw'r Prif Swyddog Gweithredol, Elin Morris. Y Dirprwy Berson Dynodedig enwebedig yw'r Pennaeth Cyfreithiol a Busnes, Iestyn Morris.

03305 880 402

ATODIAD 3

YMDRIN Â HONIADAU AM GAM-DRIN/MATERION SY'N ACHOSI PRYDER

1. Ymateb i Bryderon am Gam-drin

1.1 Wrth ymateb i bryderon am gam-drin dylid rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r egwyddorion canlynol ym mhob penderfyniad a cham gweithredu:

- Rhaid i ddiogelwch a lles y Plentyn fod yn brif ystyriaeth;
- Ni ddylai Staff ddyfalu a oes cam-drin ai peidio;
- Hyd yn oed pan fo ansicrwydd, rhaid hysbysu'r Person Dynodedig ac yn ei absenoldeb yr heddlu ac/neu Dîm Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol ynghylch yr **holl** bryderon;
- Os yw'r sefyllfa'n cynnwys bygythiad o 'farwolaeth neu anaf' dylid cysylltu ar unwaith â'r gwasanaethau brys;
- Bod cam-drin hefyd yn cynnwys methiant i weithredu er mwyn atal niwed;
- Bod Plant yn aml yn cael eu cam-drin gan rywun y maent yn ymddiried ynddo/ynddi ac yn fwy anaml, gan ddieithryn. Gall cam-drin ddigwydd ym mhob math o berthynas a lleoliad;
- Gall Plant gael eu cam-drin hefyd gan Blentyn neu berson ifanc arall a dylid trin y digwyddiadau hyn yr un mor ddifrifol a dylid gweithredu arnynt yn yr un modd â phe bai'r camdriniwr honedig yn oedolyn;

- Mai **rôl yr heddlu ac Asiantaethau Amddiffyn Plant** yw ymchwilio i bryderon, nid rôl aelod o Staff. Felly ni ddylai aelodau o Staff ymchwilio i honiad na herio camdriniwr honedig ar **unrhyw** gyfrif. Cyfeiriwch at Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 (Dilynwch y linc yma) http://www.plantyngnghymru.org.uk/polisi-document/canllawiau-amddiffyn-plant-cymru-gyfan-2008/ am wybodaeth bellach am y broses a ddilynir gan yr Heddlu ac Asiantaethau Amddiffyn Plant yn dilyn atgyfeiriad iddynt.

1.2 Mewn rhai sefyllfaoedd gall y gweithgaredd gyda Phlant gynnwys 'safle' sy'n gweithredu ei bolisi a'i weithdrefnau ei hun megis ysgol. Yn y sefyllfa hon, yr arfer gorau yw i gynnal cyswllt â Pherson Dynodedig y 'safle' a chytuno pwy fydd yn arwain pe cyfyd pryder. Os cyfyd pryder rhaid hysbysu'r holl Bersonau Dynodedig sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa. Mae'n bwysig nodi, hyd yn oed pan benderfynir y bydd Person Dynodedig y 'safle' yn arwain, bod rhaid dilyn y Polisi hwn o hyd o ran cofnodi a hysbysu.

1.3 Lle ceir pryderon ynghylch Plentyn sydd y tu hwnt i'r Polisi hwn neu sy'n peri ansicrwydd o ran pa gam gweithredu i'w gymryd dylid ceisio cyngor ac arweiniad **bob tro** gan y Person Dynodedig neu ei ddirprwy neu Linell Gymorth yr NSPCC 0808 8005000 (y gellir ei ffonio y tu allan i oriau swyddfa).

1.4 Rhaid i'r person sy'n hysbysu ynghylch y pryder o ran amddiffyn Plant:-

- wneud hynny cyn gynted â phosibl
- cytuno ar unrhyw gam gweithredu gyda'r Person Dynodedig
- cwblhau Adroddiad ar Ddigwyddiad Amddiffyn Plant (gweler isod)

Os yw Plentyn yn gwneud datgeliad, cofiwch ei bod yn bwysig peidio â mynd i banig a'ch bod yn ei helpu trwy gyfnod anodd os ydych yn peidio â chynhyrfu. Mae'r Plentyn yn gwneud rhywbeth sy'n arwyddocaol ac yn drallodus ac mae angen sicrwydd a chymorth arno/arni.

1.5 Mae'r canlynol yn bethau pwysig **y dylech** ac **na ddylech** eu gwneud wrth ymateb i Blentyn sy'n datgelu achos o gam-drin:

DYLECH sicrhau'r Plentyn ei fod yn iawn i ddweud wrthych	**Ni ddylech** ddangos anghrediniaeth, ffieidd-dod nac unrhyw beth sy'n cyfleu i'r Plentyn nad ydych yn dymuno gwrando arno
Dylech ddweud wrth y Plentyn eich bod yn cymryd ei bryderon o ddifrif	**Ni ddylech** ddyfalu
Dylech ddweud wrth y Plentyn y bydd angen i chi ddweud wrth bobl a all ei helpu ac y byddwch yn rhoi'r wybodaeth i'r bobl hynny yn unig	**Ni ddylech addo cyfrinachedd llwyr**
Dylech wrando a chofnodi'r hyn y mae'r Plentyn wedi ei ddweud wrthych **heb dorri ar draws, gofyn cwestiynau na phrocio**	**Ni ddylech** ofyn unrhyw gwestiynau i'r Plentyn am y datgeliad
Dylech ddweud wrth y Plentyn beth fydd yn digwydd nesaf	**Ni ddylech** geisio ymchwilio i'r honiad na mynd wyneb yn wyneb â'r camdriniwr honedig
Dylech gofnodi yr hyn a ddywedwyd wrthych cyn gynted â phosibl	
Dylech gofnodi yr hyn y mae'r Plentyn yn ei ddatgelu yn unig (gan ddefnyddio cofnod gair am air hyd y gallwch) a dim byd mwy	
Dylech lofnodi eich cofnod o'r datgeliad (**Ni ddylech** ofyn i'r plentyn lofnodi) a chofnodi'r amser, y dyddiad a nodyn o'r rhai a oedd yn bresennol	

1.6 Mae'n bwysig gwrando'n llawn cydymdeimlad ar y Plentyn heb dorri ar ei draws a heb wneud awgrymiadau, na dehongli'r hyn y mae'r Plentyn yn ei ddweud, na dyfalu, gwneud datganiadau arweiniol nac ysgogi'r Plentyn i ddweud mwy nag y mae'n dymuno'i ddweud yn rhydd. Y dasg pan fo Plentyn yn gwneud datgeliad yw bod yn gefn iddo/iddi trwy dawelu meddwl y Plentyn a chofnodi'r hyn y mae'n ei ddweud yn unig gan ddefnyddio geiriau'r Plentyn ei hun hyd y gellir.

1.7 Mae'n bwysig dweud wrth y Plentyn ei fod wedi gwneud y peth iawn wrth ddweud wrthych chi, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol i'w oedran a'i lefel o ddealltwriaeth. Peidiwch ag addo cadw'r hyn a ddywedwyd wrthych yn gyfrinach ond dywedwch bod rhaid i chi drosglwyddo'r wybodaeth ar sail 'angen gwybod' er mwyn ei amddiffyn. Eglurwch wrth y Plentyn beth fydd yn digwydd nesaf hyd y gwyddoch. Peidiwch ag

addo rhywbeth na allwch ei wybod neu ei gyflawni.

1.8 Os oes ar y plentyn angen sylw meddygol ar frys, galwch am gymorth. Dylid hysbysu'r meddygon / parafeddygon ynghylch y pryderon a dweud wrthynt eich bod yn mynd i fod yn hysbysu ynghylch y digwyddiad fel mater amddiffyn Plant.

1.9 Rhowch wybod ar unwaith i'r Person Dynodedig. Rhaid i'r Person Dynodedig wedyn atgyfeirio'r pryderon at yr heddlu ac/neu Dîm Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol;

1.10 Os yw'r datgeliad yn ymwneud â Rhiant y Plentyn neu aelod o'i deulu yna bydd angen cael cyngor ar unwaith gan yr heddlu ac/neu Dîm Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol ynghylch amddiffyn y Plentyn a'i gadw'n ddiogel.

1.11 Dylai'r aelod o Staff y datgelwyd y pryderon / yr honiadau wrtho/wrthi wedyn gwblhau Adroddiad ar Ddigwyddiad Amddiffyn Plant yn ysgrifenedig (Adroddiad CPI) (gweler isod) o fewn un diwrnod gwaith;

1.12 Mae'n hollbwysig nad yw'r aelod o Staff unigol yn barnu nac yn herio'r camdriniwr honedig. Ni ddylai aelodau o Staff geisio ymchwilio i'r honiadau eu hunain dan UNRHYW amgylchiadau.

1.13 Lle ceir pryderon ynghylch Plentyn sydd y tu hwnt i'r Polisi hwn neu sy'n peri ansicrwydd o ran pa gamau gweithredu i'w cymryd dylech geisio cyngor ac arweiniad **bob tro** gan y Person Dynodedig neu ei ddirprwy neu Linell Gymorth yr NSPCC ar 0808 8005000 (y gellir ei ffonio y tu allan i oriau arferol).

1.14 Yr Adroddiad ar Ddigwyddiad Amddiffyn Plant (Adroddiad CPI)

1.14.1 Rhaid i wybodaeth am bob digwyddiad gael ei throsglwyddo i'r Person Dynodedig yn S4C ac efallai y bydd angen ei throsglwyddo i'r heddlu a Thîm Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol. Dylai'r Person Dynodedig sicrhau bod manylion y cam-drin, yr honiadau neu'r pryderon yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig mor gynnar â phosibl. Dylai'r adroddiad ddefnyddio iaith glir, syml a chofnodi'n union beth y mae'r Plentyn wedi'i ddweud a dylai gynnwys y manylion canlynol lle maent yn hysbys:-

- Enw, cyfeiriad, dyddiad geni, hil/tarddiad ethnig ac iaith gyntaf y Plentyn ynghyd ag unrhyw anabledd sydd ganddo/ganddi o bosibl;
- Manylion adnabod y camdriniwr honedig;
- Manylion llawn yr honiadau neu'r pryderon, gan gynnwys amseroedd, lleoliadau a dyddiadau unrhyw ddigwyddiadau penodol;
- Pa un a gafodd y pryderon yn yr adroddiad eu codi gan y Plentyn, trydydd parti, neu'r sawl a gwblhaodd yr adroddiad;
- Disgrifiad o unrhyw anafiadau sydd naill ai wedi cael eu datgelu neu sydd i'w gweld gyda sylwadau ar ymddygiad neu gyflwr emosiynol y Plentyn (os oes rhai i'w nodi). Peidiwch ag archwilio'r Plentyn am anafiadau oni bai fod angen ymyrraeth feddygol frys;
- Enw, swydd a manylion cyswllt yr aelod o Staff sy'n cwblhau'r Adroddiad CPI.

1.14.2 Dylai'r adroddiad gael ei lofnodi, dylid rhoi'r dyddiad arno a dylid ei anfon at y Person

Dynodedig o fewn un diwrnod gwaith i'r datgeliad. Er mwyn gwarchod cyfrinachedd, dylai'r aelod o Staff ymgynghori yn gyntaf â'r Person Dynodedig ynghylch sut y dylid danfon yr adroddiad (â llaw, trwy neges e-bost gyfrinachol a.y.b.) Dylai'r holl gofnodion gael eu cadw'n ddiogel gan y Person Dynodedig.

1.14.3 Wrth ymdrin â honiadau neu bryderon ynghylch cam-drin mae'n hanfodol bod y Polisi hwn yn cael ei ddefnyddio o fewn cyd-destun ehangach canllawiau S4C ar chwythu'r chwiban. Dylai pob cwmni cynhyrchu annibynnol a chyflenwyr allanol gwasanaethau i S4C gyfeirio at eu gweithdrefnau hwy eu hunain ar gyfer chwythu'r chwiban. Dylai Staff gysylltu â'r Person Dynodedig (a dylai cwmnïau cynhyrchu annibynnol ac/neu gyflenwyr allanol i S4C gysylltu â'r Person Dynodedig o fewn S4C) os ydynt yn dod yn ymwybodol o unrhyw beth sydd naill ai'n gwneud iddynt deimlo'n anghysurus neu y mae ganddynt bryderon yn ei gylch.

1.14.4 Gweler isod restri gwirio ar gyfer Personau Dynodedig a Staff yn y drefn honno.

RHESTR WIRIO I BERSONAU DYNODEDIG WRTH YMDRIN Â HONIADAU AM GAM-DRIN A MATERION ERAILL SY'N ACHOSI PRYDER

Mae pryder ynghylch lles Plentyn yn cael ei ddwyn i'ch sylw

Cysylltwch â'r asiantaethau priodol:-

- Heddlu lleol
- Tîm Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol
- NSPCC (Llinell Gymorth): 0808 800 5000

Dylai'r holl Bersonau Dynodedig y tu allan i S4C roi gwybodaeth gyson i Berson Dynodedig S4C: Elin Morris 03305 880 402

Cadwch gofnod manwl o'r holl gamau gweithredu a gymerwyd a manylion yr atgyfeiriad(au) mewn Adroddiad ar Ddigwyddiad Amddiffyn Plant

Anfonwch gopi o'r Adroddiad ar Ddigwyddiad Amddiffyn Plant at Berson Dynodedig S4C

Dylai'r asiantaethau perthnasol ddarparu adborth ar ganlyniad atgyfeiriadau

RHESTR WIRIO I AELODAU O STAFF WRTH YMDRIN Â HONIADAU AM GAM-DRIN

Mae pryder ynghylch lles Plentyn yn cael ei ddwyn i'ch sylw

Os oes angen sylw meddygol ar Blentyn galwch am gymorth meddygol ar unwaith

Rhowch wybod i Berson Dynodedig y sefydliad

Dylai'r aelod o Staff gwblhau Adroddiad ar Ddigwyddiad Amddiffyn Plant yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl ac anfon copi at y Person Dynodedig

1.14.5 **Achosion disgyblu mewnol**

Dylai unrhyw achos disgyblu a all fod yn angenrheidiol gael ei gynnal mor gyflym â phosibl a heb ddisgwyl yn awtomatig am ganlyniad ymchwiliadau cyfochrog gan yr heddlu neu unrhyw sefydliad arall. Dylid cadw'r canlynol mewn cof:-

- Wrth benderfynu pa un a ddylid atal aelod o Staff o'i waith ai peidio, lles y Plentyn/Plant yw'r ystyriaeth bwysicaf. Budd pennaf y Plentyn sydd o bosibl mewn perygl ddylai fod yr ystyriaeth gyntaf bob amser;

- Nid rôl yr heddlu nac unrhyw asiantaethau statudol perthnasol eraill yw penderfynu ynghylch materion disgyblu mewnol, er y bydd yn bwysig ac yn angenrheidiol cynnal cyswllt eglur â'r asiantaethau sy'n ymchwilio;

- Mae'n ddigon posibl y bydd materion disgyblu mewnol yn cynnwys materion ehangach na pha un a gyflawnwyd trosedd ai peidio;

- Lle mae tystion posibl mewn achosion troseddol wedi gwneud datganiadau wrth yr heddlu, dylai'r datganiadau hyn fod ar gael i'r Person Dynodedig a Pherson Dynodedig S4C os yw'r unigolion yn cytuno;

- Dylai unrhyw gyfeiriad at ddisgyblu ac ymddygiad Staff gael ei wneud yng nghyd-destun gweithdrefnau disgyblu S4C ei hun ac yn achos pob cwmni cynhyrchu annibynnol a chyflenwr allanol gwasanaethau i S4C, yng nghyd-destun eu gweithdrefnau disgyblu hwy eu hunain.

ATODIAD 4

CANLLAWIAU GDG I GWMNÏAU CYNHYRCHU ANNIBYNNOL SY'N CYFLEWNI I S4C

1. Cyflwyniad

2. Amddiffyn Plant a Gwiriadau Cefndir

3. Newidiadau o drefniadau blaenorol
4. Gweithgaredd a Reoleiddir mewn perthynas â Phlant
    - Sut y mae'r newidiadau hyn yn berthnasol i'r diwydiant ffilm a theledu?
    - Pwy ddylid eu gwirio?
5. Gweithgaredd a Reoleiddir mewn perthynas ag Oedolion (h.y. person sy'n 18 oed neu'n hŷn)
6. Gwasanaeth Diweddaru
7. Sut i wneud cais am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
8. Atgyfeiriad at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

1. Cyflwyniad

Mae deddfwriaeth mewn grym sy'n amlinellu ar ba sail y mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol ac yn rhoi hawl i chi, fel cyflogwyr, wirio cefndir troseddol rhai unigolion penodol yr ydych yn eu cyflogi, eu contractio neu'n eu hurio er mwyn canfod a ydynt yn addas i fod yn gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Mae deddfwriaeth a gyflwynwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, sy'n diwygio Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, yn nodi, os ydych yn rhoi gwaith i unigolyn i gyflawni rhai mathau o Weithgaredd a Reoleiddir fel a ddisgrifir yn y nodyn hwn, ei bod yn ofynnol i chi gynnal gwiriad cofnodion troseddol manylach (gyda gwybodaeth am y rhestr wahardd os yn briodol) cyn ei hurio gan ei bod yn drosedd cyflogi person o'r fath mewn perthynas â Gweithgaredd a Reoleiddir.[3]

Er ei bod yn amlwg bod y ddeddfwriaeth wedi cael ei drafftio gyda'r sectorau iechyd, addysg, gofal, gwasanaethau cymdeithasol, gwirfoddol ac ati mewn golwg, mae hefyd yn berthnasol i'r sectorau ffilm a theledu er nad yw'r modd y caiff ei dehongli yn y sector hwn yn gwbl eglur. Mae'n ofynnol i'r sectorau ffilm a theledu fod â mesurau priodol i amddiffyn plant a grwpiau agored i niwed ac mae cynnal gwiriad cefndir priodol yn un o'r mesurau amddiffyn hynny.

Fel cyflogwr rhaid i chi hefyd sicrhau eich bod yn cydymffurfio â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a Deddfwriaeth Hawliau Dynol.

[3] Adran 34ZA o Ddeddf Diogelu a Grwpiau Hyglwyf 2006 yw hyn, a gyflwynwyd gan a.73 o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Nid yw'r adran wedi dod i rym eto ac nid oes dyddiad wedi'i roi ar gyfer ei roi mewn grym. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ffaith ei fod yn drosedd dan adran 9 o Ddeddf 2006 os yw darparwr gweithgaredd a reoleiddir yn caniatáu i unigolyn sydd wedi'i wahardd gyflawni gweithgaredd a reoleiddir, lle bynnag y ceir gweithgaredd a reoleiddir, mae'n ddoeth bod darparwr y gweithgaredd a reoleiddir yn cael gwiriad cofnodion troseddol manylach.

Mae'r nodyn hwn yn amlinellu'r ffordd o feddwl am y materion hyn ar hyn o bryd.

2. Amddiffyn Plant a Gwiriadau Cefndir

Wrth weithio gyda phlant, boed ar set neu unrhyw le arall, mae'n bwysig cymryd camau i ddiogelu plant. Mae'n werth cofio mai dim ond rhan o'r arfogaeth wrth amddiffyn plant yw gwiriadau cefndir. Wrth gyflogi neu roi gwaith i unigolion a fydd yn gweithio gyda phlant mae'n bwysig cymryd camau i atal y rhai sy'n anaddas rhag cael cyswllt â phlant. Gall fod yn briodol cael geirdaon a gwirio cofnodion hyfforddiant a.y.b. Yn sicr, bydd angen sicrhau bod gennych wiriad cofnodion troseddol ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant lle mae gwiriad o'r fath yn ofynnol ac/neu'n cael ei ganiatáu yn gyfreithiol.

3. Newidiadau o drefniadau blaenorol

Cyn 2012 roedd cyflogwyr yn gallu gwirio cofnodion troseddol darpar gyflogeion trwy gynnal gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB). Yn ystod 2012 newidiodd y gyfundrefn hon.

Cafodd y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) eu huno i greu un adran, sef y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Mae'r GDG bellach yn gwneud y gwaith a arferai gael ei wneud gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Felly ni fyddwn yn cyfeirio at 'Wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)' mwyach, gan y byddwn yn cyfeirio o hyn allan at 'Wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)'.

4. Gweithgaredd a Reoleiddir mewn perthynas â Phlant

Mae Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn darparu ar gyfer cynnwys diffiniad newydd o Weithgaredd a Reoleiddir (gwaith na ddylai 'person gwaharddedig' ei wneud) yn Neddf Amddiffyn Grwpiau Hyglwyf 2006. Mewn perthynas â phlant mae 'Gweithgaredd a Reoleiddir' yn digwydd lle mae unigolyn yn gwneud y canlynol yn aml neu'n ddwys:-

(a) Cyflawni gweithgareddau heb oruchwyliaeth gyda phlant: addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, goruchwylio neu ofalu am blant, neu roi cyngor/arweiniad ynghylch lles neu yrru cerbyd ar gyfer plant yn unig.
(b) Gweithio i ystod gyfyngedig o sefydliadau (a adwaenir fel 'mannau penodedig'), gyda chyfle ar gyfer cyswllt, e.e. ysgolion, cartrefi plant, safleoedd gofal plant (ond nid gwaith gan wirfoddolwyr dan oruchwyliaeth).
(c) Rhoi gofal personol perthnasol, e.e. golchi neu wisgo; neu ofal iechyd gan neu dan oruchwyliaeth gweithiwr proffesiynol, hyd yn oed os caiff hynny ei wneud unwaith.
(d) Darparu gwasanaeth gwarchod plant cofrestredig a gofalwyr maeth.
(e) Cymedroli gwasanaeth cyfathrebu rhyngweithiol electronig cyhoeddus sy'n debygol o gael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant, a hynny'n cael ei wneud gan yr un person yn aml neu'n ddwys.

Mae'n werth cofio nad yw trefniadau teuluol a threfniadau anfasnachol wedi'u cynnwys.

Mae 'yn aml' neu 'yn ddwys' yn golygu gweithgaredd a gyflawnir gan yr un person:-

- unwaith yr wythnos neu'n amlach; neu
- ar 2 ddiwrnod neu fwy mewn cyfnod o 30 diwrnod; neu
- dros nos rhwng 2am a 6am ac sy'n rhoi cyfle i'r person gael "cyswllt wyneb yn wyneb" â phlant.

Erbyn hyn nid yw Gweithgaredd a Reoleiddir yn cynnwys unrhyw fath o addysgu, hyfforddiant a chyfarwyddyd yn rheolaidd a oruchwylir o ddydd i ddydd gan berson arall. Fodd bynnag, bydd gweithiwr neu wirfoddolwr sy'n addysgu, yn hyfforddi neu'n cyfarwyddo heb oruchwyliaeth yn rheolaidd yn cyflawni Gweithgareddau a Reoleiddir.

Mae'r newidiadau i'r diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir yn golygu y bydd y cynllun fetio'n effeithio ar lai o bobl gan ddal i ddarparu system gadarn i fetio staff a gwahardd pobl sy'n anaddas i weithio gyda phlant yn y DU. Rhaid i chi beidio â hurio unrhyw un i gyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir os yw'r person hwnnw wedi cael ei wahardd gan y GDG. Yn wir, bydd sefydliad sy'n fwriadol yn caniatáu i berson gwaharddedig weithio mewn Gweithgaredd a Reoleiddir yn torri'r gyfraith. Ar ben hynny, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar ddarparwr Gweithgaredd a Reoleiddir i wirio pa un a yw person wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant wrth ystyried a ddylid cyflogi rhywun i gyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir o'r fath (fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd hon wedi dod i rym eto). Yn yr un modd, ni chaniateir ymgeisio am dystysgrif cofnod troseddol gyda gwybodaeth am y rhestr wahardd oni bai fod yr unigolyn yn mynd i gael ei gyflogi mewn Gweithgaredd a Reoleiddir fel a ragnodir, sy'n cynnwys gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed.

Sut y mae'r newidiadau hyn yn berthnasol i'r diwydiant ffilm a theledu?

Wrth gyflogi plant i gyfranogi mewn ffilmiau neu raglenni teledu, dylid gweithredu bob tro ar y rhagosodiad, (ni waeth a yw'n ofynnol i'r plentyn fod wedi'i drwyddedu gan yr awdurdod lleol i wneud y gwaith ai peidio), bod rhiant (neu berson â chyfrifoldeb rhiant) neu berson sydd wedi cael cydsyniad y rhiant yn bresennol neu fod hebryngwr yn cael ei gyflogi i ofalu am les y plentyn. Mae'r hebryngwr felly'n cael ei hurio i gyflawni 'Gweithgaredd a Reoleiddir'. Trwy estyniad, ystyrir bod y bobl hynny sy'n gyfrifol am oruchwylio'r hebryngwr hefyd yn cyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir. Fodd bynnag, lle mae rhiant neu warcheidwad yn cyflawni dyletswyddau hebryngwr mewn perthynas â'i blant ei hun yn unig yna ni fydd gwiriad y GDG yn ofynnol.

Gall rhai cynyrchiadau ar gyfer plant gynnwys rhyngweithio â phlant trwy wefannau, gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter, 'ystafelloedd sgwrsio' neu fyrddau negeseuon a gymedrolir gan aelod o'r tîm cynhyrchu. Bydd rôl y cymedrolwr yn golygu derbyn negeseuon, ffotograffau a chlipiau fideo gan blant a bydd y cymedrolwr yn penderfynu'n olygyddol pa agweddau ar y cynnwys a gaiff eu cyhoeddi ar y gwasanaeth cyfathrebu rhyngweithiol electronig. Gall y cymedrolwr hefyd ymateb yn uniongyrchol i'r plentyn neu gall oruchwylio ymatebion cyflwynwyr rhaglenni plant neu gyfranogwyr eraill ar y gwasanaeth. Mae rôl y cymedrolwr felly'n Weithgaredd a Reoleiddir.

Sylwer nad yw rheoli cronfa ddata sy'n cynnwys data plant ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn weithgaredd a reoleiddir.

Pwy ddylid eu gwirio?

Y rhai sy'n cael eu hurio i gyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir fel a nodir yn Adran 4 uchod. Rydym yn awgrymu y gall yr unigolion yn y rolau canlynol ar gynhyrchiad teledu fod yn cyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau:-

1. Hebryngwyr;
2. Y rhai sy'n goruchwylio hebryngwyr;
3. Ffitwyr gwisgoedd, colurwyr a hyfforddwyr llais;
4. Cyfarwyddwyr;
5. Cymedrolwyr gwasanaethau cyfathrebu rhyngweithiol electronig;
6. Y rhai sy'n darparu gwasanaeth fel gweithiwr proffesiynol cofrestredig e.e. seiciatrydd neu gyfreithiwr;
7. Gyrwyr sy'n cludo plant i ac o leoliadau.

Mae'r rhestr yn annhebygol o ymestyn i reolwyr llawr a dynion camera oni bai y gellir gwneud achos eglur a chadarn yn dilyn asesiad risg bod y gwaith y maent yn ei wneud yn cyd-fynd â'r diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir. Ni fyddai fel arfer yn wir bod y gweithgareddau hyn yn Weithgaredd a Reoleiddir gan y byddai rhiant, hebryngwr neu oedolyn arall sydd wedi cael cydsyniad y rhiant yn bresennol fel arfer i ofalu am y plentyn a'i oruchwylio. Nid yw cyrff ymbarél yn gallu prosesu ceisiadau am wiriadau ar gyfer pobl o'r fath nad ydynt yn cyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir.

5. Gweithgaredd a Reoleiddir mewn perthynas ag Oedolion (h.y. person sy'n 18 oed neu'n hŷn)

Mae chwe chategori o bobl a fydd yn cyd-fynd â'r diffiniad newydd o Weithgaredd a Reoleiddir mewn perthynas ag oedolion (bydd y rhai sy'n rheoli neu'n goruchwylio'r bobl hynny o ddydd i ddydd yn cyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir hefyd). Ceir amlinelliad bras o'r categorïau hyn isod.

Y chwe chategori o fewn y diffiniadau newydd o 'Weithgareddau a Reoleiddir' ar gyfer oedolion:-

1) Rhoi gofal iechyd, h.y. seicotherapi a chwnsela, (nid yw'n cynnwys er enghraifft swyddog cymorth cyntaf enwebedig / gwirfoddol mewn cwmni);
2) Rhoi Gofal Personol h.y. mae unrhyw un sy'n rhoi gofal neu gymorth corfforol oherwydd oedran yr oedolyn, afiechyd neu anabledd yn cyflawni gweithgaredd a reoleiddir (nid yw hyn yn cynnwys er enghraifft trinwyr gwallt sy'n cynorthwyo yn yr achos hwn);
3) Darparu Gwaith Cymdeithasol;
4) Cymorth gyda materion cyffredinol yn y cartref;
5) Cymorth i berson ymdrin â'i faterion ei hun h.y. pŵer atwrnai dan y Ddeddf Gallu Meddyliol; a hefyd
6) Cludo h.y. gyrwyr sy'n rhoi cymorth gyda chludiant oherwydd oedran, afiechyd neu anabledd (ac eithrio mewn achosion o ganlyniad i berthynas bersonol).

Mae'n annhebygol y bydd cwmnïau cynhyrchu'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau uchod yn ystod y broses o gynhyrchu rhaglenni teledu ac eithrio, o bosibl, pwynt 6 – trefnu i oedolyn ac arno/arni angen cymorth oherwydd ei (h)oedran, afiechyd neu anabledd gael ei g/chludo i le penodol i gyfranogi mewn cynyrchiadau. Dan amgylchiadau o'r fath byddai'n

briodol cynnal gwiriad y GDG ar gyfer y person sy'n cyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir o'r fath pe bai'r person hwnnw'n gwneud hynny heb oruchwyliaeth.

6. Gwasanaeth Diweddaru

Ym mis Mehefin 2013 fe gyflwynwyd gwasanaeth diweddaru newydd sy'n caniatáu i unigolion, am ffi flynyddol o £13, danysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru sy'n galluogi gweithiwr i fynd â'i dystysgrif gan y GDG at unrhyw gyflogwr newydd. Gall y gweithwyr hynny roi cydsyniad i'w cyflogwr newydd ddefnyddio gwasanaeth ar-lein y GDG (yn rhad ac am ddim) i wirio bod yr wybodaeth ar dystysgrif y GDG yn gyfoes, ac felly osgoi'r angen i'r cyflogwr newydd orfod cynnal gwiriad newydd gyda'r GDG. Mae hyn yn amlwg yn arbed amser a chost trwy osgoi'r angen am geisiadau mynych.

7. Sut i wneud cais am wiriad y GDG

Mae'n ofynnol bod yr holl geisiadau am wiriad y GDG yn cael eu cynnal gan gyrff ymbarél trwyddedig. Mae tair lefel o wiriad – gwiriad Safonol, gwiriad Manylach, a gwiriad Manylach gyda gwiriad o'r rhestr wahardd. Lle mae'r gwaith yn golygu bod yr unigolyn yn gweithio mewn 'Gweithgaredd a Reoleiddir' bydd yn ofynnol cynnal gwiriad Manylach. I fod yn gymwys i ofyn am wirio'r rhestr wahardd mewn perthynas â phlant neu oedolion, rhaid i'r swydd hefyd fod yn gymwys ar gyfer tystysgrif ar lefel fanylach gan y GDG fel a nodir uchod a bod wedi'i rhestru'n benodol yn rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) fel un lle gellir gwirio'r rhestr wahardd briodol/rhestrau gwahardd priodol.

Dim ond ar bobl y mae'r sefydliad yn bwriadu eu hurio i gyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir y dylai gwiriadau'r GDG gael eu cynnal. Dylech gael cyngor cyfreithiol ynghylch y camau priodol i'w cymryd os yw canlyniadau'r gwiriad yn datgelu unrhyw beth a fyddai'n gwneud y person yn anaddas i gyflawni'r rôl.

Mae rhai cyrff ymbarél yn cynnig proses ymgeisio ar-lein (fel arall gellir gofyn am ffurflen gais) y bydd angen i'r cyflogwr a'r darpar gyflogai ei chwblhau a bydd canlyniad y gwiriad yn cael ei ddarparu ar gyfer y cyflogwr. Mae'r wybodaeth hon yn hynod gyfrinachol a rhaid ei chadw mewn lle diogel.

Gan fod y dystysgrif gan y GDG yn ddilys ar adeg y cais yn unig, dylai cyflogwyr ystyried diweddaru'r gwiriad o bryd i'w gilydd os yw cyflogai'n gyson yn cyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir. Dull synhwyrol posibl fyddai diweddaru'r gwiriadau ar ddechrau pob cynhyrchiad ac wedyn bob chwe mis. Mae'n bosibl gwneud cais am wasanaeth diweddaru gan y GDG am dâl blynyddol.

Gwiriad Sylfaenol

Gall unigolyn ymgeisio am dystysgrif sylfaenol gan y GDG. Gall hyn fod yn ddefnyddiol lle nad yw unigolyn yn cyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir ond lle byddai rhyw fath o wiriad yn ddefnyddiol i bennu addasrwydd yr unigolyn hwnnw i weithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed.

Gall unigolion (sy'n 16 oed neu'n hŷn ar yr adeg y maent yn gwneud y cais) ymgeisio am dystysgrif sylfaenol y GDG.

Mae tystysgrif sylfaenol y GDG yn cynnwys manylion euogfarnau troseddol heb ddarfod, rhybuddiadau amodol neu ddiamod, neu ddatganiad nad oes euogfarnau na rhybuddiadau o'r fath gan yr unigolyn.

Mae'r wefan gov.uk yn nodi ei bod yn bosibl i rywun wneud cais am dystysgrif sylfaenol y GDG gan Disclosure Scotland gan y bydd hyn yn darparu manylion euogfarnau unrhyw le yn y DU.

Cynllun Troseddwyr Rhyw gyda Phlant

Gall hefyd fod yn bosibl defnyddio'r Cynllun Troseddwyr Rhyw gyda Phlant a gaiff ei redeg gan yr heddlu lleol mewn rhai amgylchiadau i geisio gwybodaeth am unigolyn lle nad yw'n mynd i fod yn cyflawni gweithgaredd a reoleiddir ond lle teimlir bod risg posibl.

8. Atgyfeiriad at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

Os byddwch yn diswyddo rhywun neu'n ei atal rhag cyflawni Gweithgaredd a Reoleiddir (neu pe baech wedi gwneud pe na baent wedi gadael yn barod) am ei fod wedi niweidio neu ei fod yn achosi risg o niwed i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi anfon gwybodaeth am y person hwnnw ymlaen at y GDG. Mae peidio â gwneud hynny yn drosedd. Os ydych yn credu bod y person wedi cyflawni trosedd, fe'ch cynghorir hefyd i drosglwyddo'r wybodaeth i'r heddlu.

Felly rhaid i gyflogwyr atgyfeirio rhywun at y GDG os oeddent:-

- wedi ei ddiswyddo am ei fod wedi niweidio Plentyn neu oedolyn;wedi ei ddiswyddo neu
- ei atal rhag gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir oherwydd y gallai fod wedi niweidio Plentyn neu oedolyn fel arall;
- yn bwriadu ei ddiswyddo am unrhyw un o'r rhesymau hyn, ond bod y person wedi ymddiswyddo'n gyntaf.

Mae cyflogwr yn torri'r gyfraith os nad yw'n atgyfeirio rhywun at y GDG am unrhyw un o'r rhesymau uchod.

Ceir mwy o wybodaeth yn:

https://www.gov.uk/disclosure-barring-service-check/overview

ATODIAD 5

DIOGELU DATA

Mae Plant yn Wrthrychau Data dan DDD 1998 a chaiff eu Data Personol ei ddiogelu i'r un graddau â Data Personol oedolion dan y Ddeddf. Er mwyn diogelu buddiannau plant ymhellach, bydd S4C yn ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad rhiant cyn casglu a defnyddio Data Personol plant. Pan fo'n briodol, bydd cydsyniad y plentyn yn cael ei geisio hefyd.

Gall cydsyniad gael ei roi mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd (o flwch ticio ar-lein syml a gwblheir gan y plentyn, i lofnodi ffurflen cydsyniad rhiant neu gyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r plentyn a'r rhiant). Bydd y math o gydsyniad a fydd yn cael ei geisio'n dibynnu ar y sefyllfa ac oedran y plentyn ond dylid cael cydsyniad datganedig a gwiriadwy ar ffurf briodol gan riant i gasglu a defnyddio Data Personol gan blant dan 12 oed bob tro. Dylid cadw cofnod o'r cydsyniad hwnnw.

Mae'n annhebygol y bydd cydsyniad rhiant yn ofynnol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed.

Dylid storio Data Personol plant yn y ffordd fwyaf diogel bosibl bob tro. Rhaid diogelu'r data â chyfrinair a dim ond y rhai ag angen busnes dilys ddylai fod â chaniatâd i gyrchu'r data. Os ydych yn prosesu Data Personol Sensitif plant, gall fod yn ofynnol gweithredu mesurau diogelwch pellach.

Dylai staff sy'n trin Data Personol plant gael gwiriad priodol gan y GDG. (Gweler Atodiad 4 – Canllawiau ynghylch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd am fwy o fanylion).

Dylid cadw Data Personol plant (fel yr holl Ddata Personol) dim ond am gyhyd ag sy'n angenrheidiol yn unol â darpariaethau DDD 1998. Dylid sefydlu gweithdrefnau priodol i sicrhau bod unrhyw Ddata Personol a gesglir gan blant yn cael ei waredu ar yr adeg briodol ac mewn modd saff a diogel.

ATODIAD 6

S4C

Ffurflen Hunan Ddatganiad Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed

Mae S4C a **[nodwch enw'r cwmni]** (y "Cwmni") wedi ymrwymo i ddiogelu lles Plant ac Oedolion Agroed i Niwed.

Bydd yn ofynnol i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych yn ymgymryd â rôl sydd o fewn Categori A neu B isod:-

Categori A

Bydd eich rôl yn golygu y byddwch yn gweithio'n uniongyrchol â Phlant ac Oedolion Agored i Niwed mewn sefyllfa lle gellir gofyn yn gyfreithlon am dystysgrif safonol neu fanylach y GDG h.y. lle mae'r swydd yn un sydd wedi'i 'heithrio' o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 fel y'i rhestrwyd yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Gorchymyn Eithriadau) 1975 fel y'i diwygiwyd. Mae hyn yn cynnwys y rheiny sy'n ymgymryd â Gweithgaredd a Reoleiddir fel y'i diffinnir yn Neddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012.

Mae'n ofynnol i chi ddatgelu pob euogfarn (wedi'i ddisbyddu a heb ei ddisbyddu), rhybuddion, ceryddon a rhybuddion terfynol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall nad yw'n ymwneud ag euogfarn nad yw'n gymwys i'w hidlo.

Categori B

Nid yw eich rôl fel arfer yn golygu y byddwch yn gweithio gyda Phlant neu Oedolion Agored i Niwed ond gallwch ar brydiau ddod i gyswllt dan oruchwyliaeth â Phlant neu Oedolion sy'n Agored i Niwed. Nid oes angen i chi ddatgelu euogfarnau wedi'u disbyddu yn yr amgylchiadau hyn.

Hunan Ddatganiad

Yr wyf yn datgan:-

1. Nid oes gennyf unrhyw euogfarnau yn y DU nac mewn unrhyw wlad arall.
   (Nid oes angen i chi ddatgelu euogfarnau wedi'u disbyddu os yw Categori A yn berthnasol i'ch rôl[1].

2. Nid wyf erioed wedi bod yn destun camau disgyblu na chosb yn ymwneud â Phlant neu Oedolion Agored i Niwed. Nid yw fy enw ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw ac nid wyf yn

[1] Os yw Categori B yn berthnasol i'ch rôl, mae Gorchymyn 1975 (Eithriadau) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) yn amodi bod rhai euogfarnau wedi'u disbyddu a rhybuddion yn rhai 'gwarchodedig' ac nid oes rhaid eu datgelu i gyflogwyr, ac ni ellir eu hystyried. Gellir gweld arweiniad a meini prawf ar hidlo'r rhybuddion a'r euogfarnau hyn ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y Llywodraeth).

hysbys i'r Heddlu nac unrhyw Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol, nac unrhyw gyflogwr, fel risg gwirioneddol neu botensial i Blant ac Oedolion Agored i Niwed.

3. Yr wyf yn cadarnhau nad wyf wedi fy ngwahardd o waith a reoleiddir â Phlant neu Oedolion Agored i Niwed yn unol â Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006).

4. Os yn y dyfodol y bydd unrhyw un o bwyntiau 1-3 yn gymwys, yna byddaf yn hysbysu'r Cwmni ar unwaith.

Mae S4C a'r Cwmni yn cadw'r hawl i wirio'r wybodaeth a roesoch ar y ffurflen hon. Trwy lofnodi'r ffurflen hon, rydych yn rhoi caniatâd i S4C a'r Cwmni brosesu a chadw'r data at ddibenion diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed a rheoli risg iechyd a diogelwch yn unol â Deddfau a Rheoliadau Diogelu Data.

Yr wyf yn cadarnhau fy mod wedi ymrwymo i nodau ac amcanion S4C a'r Cwmni wrth amddiffyn a diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed. Yr wyf yn deall yr ystyrir bod rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol neu hepgor gwybodaeth yn dor-ymddiriedaeth ac y gallai arwain at fy niswyddo ar unrhyw adeg yn y dyfodol. Yr wyf yn datgan fod y wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir.

Llofnodwyd……

Dyddiedig……

Os nad ydych yn gallu gwneud y datganiad hwn, rhaid i chi hysbysu'r Cwmni ac efallai na allwch, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, weithio ar unrhyw raglen sy'n golygu gweithio gyda, neu fod mewn cysylltiad â Phlant neu Oedolion Agored i Niwed.

Diffiniadau

"Plant" neu "Plentyn" yw person sydd o dan 18 mlwydd oed (adran 60 (1), 2006 DDGH)

(Adran 60(1), DDGH 2006 fel y'i diwygiwyd gan 65(2), Ddeddf Diolgelu Rhyddidau 2012)

"Oedolion Agored i Niwed" yw unigolyn sy'n

- 18 oed neu drosodd; ac
- yn agored i weithgaredd a reoleiddir fel y'i diffinnir gan baragraff 7(1) o Atodlen 4 y DDGH 2006